# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Gorffennaf 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

**1. PENDERFYNIAD**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn dderbyn yr adroddiad.

**2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.3 Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o

dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i Catrin Love a'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl.

2.5 Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda chi gyd i'r dyfodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

## 3. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn argymell y penderfyniad

Cyflwynwyd drafft o'r adroddiad i gyfarfod 18fed o Fehefin o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac addaswyd y cynnwys yn dilyn eu sylwadau.

## 4. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

### Swyddog Monitro:

Rwy'n gwerthfawrogi y cyd weithrediad agos sydd yn digwydd rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Democrataidd ac yn croesawu yr adroddiad yma.

### Swyddog Cyllid Statudol:

Credaf fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o weithgareddau 2023/24. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.